# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

**RHAN 3**

ETHOLIADAU

*Estyn yr hawl i bleidleisio*

**10 Estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i bersonau 16 a 17 oed**

(1) Mae adran 12 (yr hawl i bleidleisio) o Ddeddf 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)(a), ar ôl "constituency" mewnosoder "or fall within the extended franchise for Senedd elections as described in this section".

(3) Ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

"(1A) A person falls within the extended franchise for Senedd elections if the person—

(a) has attained the age of 16, but not the age of 18, and

(b) would, but for any disability removed by this section, be entitled to vote as an elector at a local government election in an electoral area wholly or partly included within the Senedd constituency."

(4) Mae'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn cael effaith at ddibenion etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.